EISTEDDFOD GADEIRIOL MAENCLOCHOG 2023

Ar ddydd Llun Calan Mai cynhaliwyd y 75ain Eisteddfod yn Neuadd Gymunedol Maenclochog.
Y beirniaid oedd: Cerdd – Gwawr Owen, Caerdydd Llên a Llefaru - Y Prifardd Tudur Dylan Jones, Caerfyrddin. Bu gyn prifathro Ysgol Gymunedol Penffordd sef Ann Morris o Faenclochog yn beirniadu cystadlaethau llenyddol y plant, a chyn prifathro ysgol Casmael sef Alun Ifans, yn beirniadu'r celf a ffotograffiaeth y plant lleol. Hefina Jones ALCM, oedd y cyfeilydd swyddogol.

Enillydd y Gadair eleni oedd Judith Morris o Benrhyn-Coch. Aberystwyth. Rhoddwyd y gadair fechan gan Ann a Keith Morris, er cof am mam a tad Keith sef Maud ac Elwyn Morris . Yn gyfrifol am lywio'r seremoni oedd Hefin Wyn a chyrchwyd y buddugol i'r llwyfan gan Julie Thomas a Catrin Williams tra fod Leia Burge yn chwarae'r delyn. Canwyd cân y Cadeirio gan Brenda Williams a chyfarchwyd y bardd gan Eirian Wyn Lewis. Croesawyd Geraint Harries a Ken Thomas i'r llwyfan fel Ceidwad y Clêdd.

Trefor Huw Jones o Bentre'r Eglwys, Pontypridd enillodd Tlws Coffa E Llwyd Williams. Enillodd Nia Lewis Docyn Llyfr yn rhoddedig gan *Clebran* (Papur Bro'r Preseli) yn y gystadleuaeth 'erthygl ar un o bynciau llosg y dydd addas i'w chynnwys yn *Clebran.*'

Lefi Dafydd o Bontyglasier, Eglwyswrw oedd yn fuddugol yng nghystadleuaeth Tlws y Llenor Ifanc. Naomi Nicholas- Jones oedd yn gyfrifol am lywio'r seremoni. Cafwyd hanes Lefi gan Naomi Nicholas Jones, detholiad pwrpasol o'i gwaith gan Marged Harries a chyfarchion gan Siencyn Corp a Nia Lewis.

Yn fuddugol eleni yn cyfansoddi geiriau Emyn ar gyfer uno enwadau oedd Megan Richards, Aberaeron.

Gruffudd Davies o Landyfyriog enillodd Tarian Nest am y cystadleuydd mwyaf addawol dan 12 oed.
Fe enillodd Lefi Dafydd o Eglwyswrw Tarian Roger Hill am yr offerynnwr mwyaf disglair ac aeth Cwpan Coffa Titus Lewis am y cystadleuydd disgleiriaf yr Eisteddfod hefyd i Lefi Dafydd.

Mrs Ann Morris, Penrhyn Coch oedd llywydd y dydd. gynt o Llwyncelyn, Llangolman. Cafwyd araith ddifyr a pherthnasol ganddi.

Arweinyddion yr Eisteddfod o'r llwyfan oedd Edryd Eynon, Delun Gibby, Naomi Nicholas-Jones, Angharad Edwards a Hefin Wyn. Diolch i'r Pwyllgor i gyd am eu cyfraniad i sicrhau Eisteddfod lwyddiannus eleni eto.

Canlyniadau

Barddoniaeth (LLEOL)			
	1af	**2ail**	**3ydd**
Blwyddyn 2 ac Iau	Magi John	Ezmay Hughes	Evelyn Thomas
Blwyddyn 3 a 4	Betsan Williams	Lydia Evans	Erin Colnet
Blwyddyn 5 a 6	Hari Davies	Wilfred Harris	Peggy-Anne Hammersley
CELF (Lleol)			

Blwyddyn 2 ac Iau	Lily-Rose Morris	Jac Williams	Bella Grove
Blwyddyn 3 a 4	Poppy Hammersley	Cynan Makepeace	Lewis Roberts
Blwyddyn 5 a 6	Joshua James	Lili Williams	Evan Meaden
Ffotograffiaeth Gynradd: 1af Jac Williams 2il Lili Williams 3ydd Delor Thomas Ffotograffiaeth Uwchradd**:** 1af Alaw Thomas			

LLWYFAN
Unawd i blant dan 7 oed (lleol) 1af Jac Williams 2il Deio Colnet 3ydd Isla Evans
Llefaru I blant dan 7 oed (lleol) 1af Jac Williams 2ail Isla Evans 3ydd Evelyn Thomas
Unawd i blant dan 10 oed sydd heb ennill o'r blaen.(lleol) 1af Erin Colnet 2il Betsan Williams 3ydd Lydia Evans
Llefaru i blant dan 10 oed sydd heb ennill o'r blaen 1af Deri Nicholas 2il Erin Colnet 3ydd Lydia Evans
Unawd dan 7 oed (agored) 1af Jac Williams 2ail Deio Colnet 3ydd Isla Evans
Llefaru dan 7 oed (agored) 1af Magi John 2ail Jac Williams 3ydd Isla Evans
Unawd 7-9 oed 1af Gruffudd Davies 2il Erin Colnet 3ydd Martha
Llefaru 7-9 oed 1af Gruffudd Davies 2il Erin Colnet 3ydd Lydia Evans
Unawd 10-12 oed 1af Iwan Thomas 2il Delor Thomas 3ydd Lili Williams
Llefaru 10-12 oed 1af Celyn Davies 2il Miriam Grim 3ydd Iwan Thomas
Darllen o'r Ysgrythur dan 12 oed 1af Iwan Thomas 2il Celyn Davies 3ydd Delor Thomas
Unawd Alaw Werin dan 12 oed 1af Gruffudd Davies 2il Lili Williams 3ydd Iwan Thomas
Canu Emyn dan 12 oed 1af Gruffudd Davies 2il Iwan Thomas 3ydd Delor Thomas
Unawd ar unrhyw Offeryn Cerdd dan 12 oed 1af Bronwen Corp 2il Anwen Simms 3ydd Teilo Corp
Unawd 12-16 oed 1af Gweni Edwards 2il Ifan Evans 3ydd Ianto Evans
Llefaru 12-16 oed 1af Sara James 2il Ianto Evans 3ydd Cerys Knight
Unawd Cerdd Dant dan 16 oed 1af Miriam Grim
Deuawd dan 16 oed 1af Hanna Evans a Mia Parry 2il Alaw a Delor Thomas 3ydd Bronwen a Teilo Corp
Unawd Alaw Werin 12-18 1af Ianto Evans 2il Sara James 3ydd Gweni Edwards
Canu Emyn 12-18 1af Gweni Edwards 2il Ianto Evans
Unawd offeryn cerdd 12-18oed 1af Lefi Dafydd 2il Ianto Evans a Jencyn Corp 3ydd Ifan Evans

Sgen Di Dalent? 1af Jencyn Corp 2il Ainsley Corp a Meredith George
Darn heb Atalnodi 1af Lefi Dafydd 2il Lili Williams 3ydd Alaw Thomas
Her adroddiad dros 15 oed 1af Angharad Edwards
Her Unawd dros 15oed 1af Owen Jenkins
Parti heb fod o dan 12 o leisiau s thros 15 oed 1af Criw Harmo Ni
Parti Cydadrodd – Agored 1af Merched Llanychllwydog a Merched y Bryn
Canu Emyn dros 18 oed 1af Meredith George

LLÊN

Y Gadair – Judith Morris, Penrhyn Coch

Tlws Coffa E Llwyd Williams – Trefor Huw Jones, Rhondda Cynon Taf

Tlws y Llenor Ifanc – Lefi Dafydd, Eglwyswrw

Emyn – Megan Richards, Aberaeron

Erthygl addas i'w chynnwys yn Clebran – Nia Lewis, Y Môt,

Soned/Telyneg – 1af Megan Richards, Aberaeron 2il Nia Lewis, Y Môt

Englyn - 1af Arwel Jones, Rhuthun 2ail Alan Lwi, Didcot

Pennill Beddargraff - 1af Arwel Emlyn Jones, Rhuthun 2ail Megan Richards, Aberaeron

Limrig - 1af Megan Richards, Aberaeron 2ail Alan Lwi, Didcot

Dysgwyr (oedolion) sydd wedi bod yn dysgu Cymraeg am dros dwy flynedd –

1af Liz Bracken, Casblaidd 2il Penny Ashe, Wdig

Cyfansoddi Tôn: Dr Rhys Williams, Cilgerran

``